

Y PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL

9 Rhagfyr 2015

Yn bresennol: Y Cynghorydd R Kilmister (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr P Harries a P J Morgan, Mr A E Sangster a
Mrs M Thomas.

[Cyrhaeddodd y Cynghorydd ML Evans a Ms C Gwyther tra oedd yr aelodau yn trafod Adroddiad 16/15 – Adroddiad am Berfformiad – gweler Cofnod 4]

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10:00am – 12.15pm)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol oddi wrth y Cynghorwyr S T Hudson ac A Wilcox.

2. Datgelu buddiant

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Medi 2015 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Medi 2015.

4. Adroddiad am berfformiad am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Hydref 2015

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes a Pherfformiad adroddiad am y perfformiad hyd yma ar gyfer Timau Cyfeiriad y Parc, Cyflawni a Darganfod o gymharu â'r canlyniadau strategol yn Rhan 1 y Cynllun Gwella hyd at 31 Hydref 2015, gan ddefnyddio system rheoli perfformiad Ffynnon. Roedd yn dangos canran y gwaith a gwblhawyd, ynghyd â statws RAG (coch-gwyrdd-oren) ar gyfer pob cam gweithredu. Roedd y cynnydd ar bob cam gweithredu wedi'i nodi yn yr adroddiad.

Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, roedd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau yn dod yn eu blaenau'n dda, ac roedd pob un o fewn yr amserlen.

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau am nifer o'r camau gweithredu, ac fe'u hatebwyd gan y swyddogion. Soniwyd bod nifer yr ymwelwyr a'r refeniw yng nghanolfan ymwelwyr Dinbych-y-pysgod a Oriel y Parc yn is na'r llynedd, ond roedd cynnydd yn eu nifer yng Nghaeriw, Castell Henllys a Threfdraeth. Ar y cyfan, roedd nifer yr ymwelwyr wedi gostwng tua 3.6% a'r gwerthiant 9%.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad am berfformiad.



5. Y Gofrestr Risg

Esboniodd y Rheolwr Busnes a Pherfformiad fod yr adroddiad am y Gofrestr Risg mewn dwy ran. Roedd y rhan gyntaf yn ymwneud â'r adroddiad archwiliad mewnol i'r gofrestr risg, a'r ymateb i hynny. Yn yr ail ran roedd y gofrestr risg ei hun, a oedd wedi'i diwygio yn unol ag argymhellion yr archwiliad.

Roedd sylwadau'r Aelodau am y Gofrestr newydd yn ffafriol. Soniwyd ei bod yn bwysig defnyddio goblygiadau ariannol i asesu effaith y risgiau, ond roedd angen eu hystyried mewn modd mwy holistaidd, oherwydd gallai effeithiau eraill, fel y rhai a oedd yn ymwneud ag enw da, fod yn uwch.

NODWYD.

6. Canllawiau o ran Digwyddiadau Cynaliadwy

Esboniodd y Swyddog Polisi Iechyd a Thwristiaeth fod yr Awdurdod y cydnabod y gallai digwyddiadau hamdden a drefnwyd ddod â manteision cadarnhaol. Gallent gyfoethogi profiad pobl o'r amgylchedd awyr agored unigryw a gallent gyfrannu at yr economi leol. Roedd yn bwysig hefyd sicrhau bod cyn lleied â phosibl o effeithiau negyddol yn cael eu hachosi, fel cynnydd yn yr erydiad ar yr arfordir ac yn fewndirol, tafu ar fywyd gwyllt a chymunedau lleol.

Felly, roedd y swyddogion wedi llunio canllawiau digwyddiadau cynaliadwy, ac roedd copi ohonynt ynghlwm wrth yr adroddiad. Anelwyd y canllawiau'n bennaf at ddigwyddiadau chwaraeon o faint canolig a mawr, fel 'Iron Man'. Esboniodd y swyddog eu bod hefyd wedi llunio rhestr wirio ar-lein gyda mapiau rhyngweithiol i'w defnyddio law yn llaw â'r canllawiau. Eu diben oedd rhoi gwybod i'r trefnwyr am y cyfyngiadau a'u cyfeirio at y mannau a oedd fwyaf addas ar gyfer y mathau o weithgareddau a oedd ganddynt dan sylw. Dangoswyd i'r Pwyllgor sut roedd hyn yn gweithio.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog, ac wrth groesawu'r canllawiau, gofynnwyd a allai digwyddiadau gael eu cofrestru mewn calendr er mwyn osgoi gwrthdaro ar benwythnosau prysur. Atebodd y swyddog y gellid datblygu hynny yn y dyfodol, yn ogystal ag astudiaethau achos o'r arferion gorau. I lunio'r canllawiau cafwyd cyfraniadau gan sefydliadau fel Cyngor Sir Penfro, Twristiaeth Sir Benfro a Fforwm Arfordirol Sir Benfro. Roeddynt hwy, ynghyd â Llywodraeth Cymru, hefyd wedi hyrwyddo'r canllawiau fel rhan o'u hymgyrch i farchnata'r sir. Awgrymodd yr Aelodau fod natur arfordirol y Parc Cenedlaethol yn fantais unigryw o ran marchnata, ac y gellid targedu digwyddiadau eraill i'w hannog i gael eu cynnal yn y sir.



NODWYD.

7. Cynllun Blychau Nythu Tylluanod Gwyn

Esboniodd y Swyddog Cadwraeth wrth y Pwyllgor fod yr Awdurdod, ers 2009, wedi dosbarthu 44 o flychau i dirfeddianwyr yn y Parc Cenedlaethol a thu hwnt i'w gosod yn bennaf mewn tai mas ac ar goed yma ac acw. Fe'u gosodwyd yn ymyl cynefin bwydo'r tylluanod gwyn, a oedd yn cynnwys glaswelltir twmpathog.

Yn ystod 2014, cynhaliodd adarwr lleol arolwg o flychau nythu'r tylluanod gwyn, a chanfuwyd fod 12% o'r blychau hyn yn cael eu defnyddio gan dylluanod gwyn, a 21% gan dylluanod brech. Roedd y niferoedd hyn yn eithaf isel, a oedd yn adlewyrchu'r gwanwyn hir ac oer, a'r haf mwyn. Yn 2015, gwnaed arolwg arall a chanfuwyd fod 3 neu 4 yn rhagor o flychau yn cael eu defnyddio, a olygai fod tua hanner y blychau yn cael eu defnyddio. Roedd hyn yn debyg i'r sefyllfa mewn siroedd eraill lle cynhaliwyd arolygon. Cadarnhaodd y swyddog fod hyn bellach yn llinell sylfaen ac y byddai arolygon o'r blychau yn cael eu cynnal eto yn y dyfodol.

Gan ddiolch i'r swyddog am adroddiad diddorol, gofynnodd un o'r Aelodau a oedd cyhoeddusrwydd yn cael ei roi i'r cynllun a ble y gellid cael cyngor ynghylch gosod blychau nythu oherwydd credai y byddai sawl tiffeddiannwr yn fodlon prynu blychau. Esboniodd y swyddog y byddai'n barod iawn i roi cyngor i dirfeddianwyr, ond gan fod y blychau yn eithaf drud, ni fyddai gan yr Awdurdod arian i ddarparu llawer ohonynt yn y dyfodol.

NODWYD.

8. Adroddiad Perfformiad ar y Rhaglen Datblygu'r Celfyddydau yn Oriol y Parc hyd at 30 Tachwedd 2015

Atgoffwyd yr Aelodau mai Oriol y Parc a'r Ganolfan Ymwelwyr oedd y porth i ymwelwyr i Dyddewi, ac roedd yn ganolfan gelfyddydau a wasanaethai ymwelwyr a'r gymuned leol. Roedd rhaglen o arddangosfeydd yn cael ei darparu mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru – National Museum Wales (AC-NMW), ynghyd â rhaglen gelfyddydau ehangach a oedd yn cynnwys artistiaid preswyl a gweithgareddau celf cyfranogol a gweithgareddau dysgu creadigol. Roedd y rheini'n annog pobl i ymwneud â diwylliant, treftadaeth, tirwedd ac amgylchedd y Parc Cenedlaethol a'u dehongli. Roedd hefyd yn ffordd o gefnogi a hyrwyddo bywyd artistig a diwylliannol y Parc Cenedlaethol.

Yn y blynyddoedd diwethaf, bu ffocws y rhaglen ehangach hon yn ddeublyg – datblygu a meithrin enw da Oriol y Parc fel canolfan gelfyddydau a oedd yn cyflwyno celfyddyd wych; a oedd yn annog ac yn



cefnogi sector gelfyddydau fywiog a chynaliadwy, a oedd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i hybu dibenion Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ac a oedd yn hybu dysgu, datblygiad economaidd ac ansawdd bywyd. Mewn cyfnod o gyni ariannol, roedd y gwasanaeth Datblygu'r Celfyddydau hefyd wedi mynd ati i sicrhau amylchedd mwy cefnogol a chynaliadwy lle gallai'r celfyddydau yn Oriel y Parc ddatblygu a ffynnu. Bu'r hwb a roddwyd i bartneriethau a chydweithredu yn rhan bwysig o hynny.

Aeth y Swyddog Datblygu'r Celfyddydau rhagddo i amlinellu sawl prosiect a gynhaliwyd yn y ganolfan, gan gynnwys Môr Plastig gan y ffotograffydd cain Mike Perry a oedd yn archwilio effaith sbwriel plastig ar yr amgylchedd; ac Ob:serve, pan dreuliodd Linda Norris chwe wythnos yn arsylwi ar naturiaethwyr ar Ynys Sgomer, a arweiniodd at gorff o waith a gaiff ei arddangos yn oriel y tŵr yn ystod 2016. Roedd y gweithiau modern hyn yn wrthgyferbyniad da i'r rhaglen o arddangosfeydd a gynhaliwyd gan AC-NMW ac yn adlewyrchu'r diddordeb presennol mewn celfyddyd fodern ar adeg pan oedd y cyfleoedd i wneud hynny'n brin yn Sir Benfro.

Roedd yr Aelodau'n falch o'r gwaith ymgysylltu a wnaed gyda sefydliadau megis Springboard, a dywedodd y swyddog fod yr elfen hon yn cael ei datblygu, a bod gweithdai ysgrifennu creadigol ar y gweill ar gyfer 2016. Roedd gwaith ar y gweill hefyd i annog ysgolion o ran ddeheuol y sir drwy ddarparu rhaglen ddiwrnod a oedd hefyd yn cynnwys gweithgareddau awyr agored.

NODWYD.

[Ymddiheurodd Ms Chris Gwyther a gadawodd y cyfarfod yn ystod y cyflwyniad a ganlyn]

9. Gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru

Roedd yr adroddiad gerbron y Pwyllgor yn nodi amryw feysydd gwaith lle'r oedd yr Awdurdod yn ymwneud â Chyfoeth Naturiol Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys cyfraniadau at reoli a chynnal a chadw'r Llwybr Cenedlaethol, amryw gynlluniau coetir, swydd Parcmon Castell Martin ac thrwsio difrod a achoswyd gan stormydd. Yn 2014/15 oedd cyfraniadau Cyfoeth Naturiol Cymru tua £317,000.

Yna, estynnodd y Cadeirydd groeso i Andrea Winterton, Rheolwr Gweithrediadau Cyfoeth Naturiol Cymru yn Sir Benfro, a roddodd drosolwg o rywfaint o'r gwaith hwnnw. Soniodd am y tebygolrwydd y byddai dalgylch Aberdaugleddau yn cael ei ddynodi yn Barth Perygl Nitradau yn y dyfodol. Byddai heriau yn gysylltiedig â hynny oherwydd y llygredd gwasgaredig o slyri a oedd yn cael ei fewnforio i'r Parc



Cenedlaethol. Roedd o'r farn na fyddai Offer Treulio Anaerobig yn helpu yn hyn o beth, gan nad oedd yn cael gwared â'r nitrad.

Trafodwyd hefyd y gwelliannau i'r ansawdd dŵr a arweiniodd at statws baner las llawer o draethau'r sir. Fodd bynnag, cydnabuwyd fod perygl o laesu dwylo yn hyn o beth. Soniwyd hefyd am ddyletswydd Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Ddeddf yr Amgylchedd i lunio adroddiad am gyflwr yr adnoddau naturiol a fyddai'n arwain at ragor o fonitro amgylcheddol ledled y wlad.

Hefyd, mynegodd yr Aelodau bryderon am ymatebion hwyr Cyfoeth Naturiol Cymru i geisiadau cynllunio, ac i'r cyllid grant yn y dyfodol. Atebodd Ms Winterton nad oedd cynllunio yn faes o dan ei rheolaeth hi, ond bod gan y sefydliad dargedau llym i gyrraedd amserlenni'r Awdurdod, ac roedd cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn cael eu cynnal lle codwyd y mater hwn. O ran ariannu, roedd hyn yn her i bob corff cyhoeddus a byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried gwahanol ddulliau o ddarparu gwasanaethau a fyddai, yn ddiau, â goblygiadau i'r Awdurdod.

Diolchwyd i Ms Winterton am ddod i'r cyfarfod y bore hwnnw, a diolchwyd hefyd i Gyfoeth Naturiol Cymru am ei waith.

NODWYD yr adroddiad.

10. Y Flaenraglen Waith

Fel y trafodwyd eisoes, roedd yr Aelodau a'r swyddogion wedi awgrymu nifer o bynciau i'w trafod gan y Pwyllgor yn y dyfodol, ac roedd y rhain wedi'u trefnu mewn blaenraglen waith arfaethedig dros gyfnod o ddwy flynedd. Yn ôl y rhaglen, byddai'r cyfarfod nesaf yn ymwneud â rheoli meysydd parcio o ran cefnogi twristiaeth gynaliadwy a pherfformiad Llwybr yr Arfordir ac opsiynau ar gyfer cyllid yn y dyfodol. Awgrymwyd hefyd y dylid asesu rhaglen ysgolion yr Awdurdod, a chafwyd cais am eitem ar wella bioamrywiaeth y Parc Cenedlaethol, o gymharu â'i warchod.

PENDERFYNWYD y byddai adroddiadau ar Llwybr yr Arfordir, y Rhaglen Ysgolion a gwella bioamrywiaeth yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

11. Y Grŵp Gwelliant Parhaus: dirprwyo materion

PENDERFYNWYD nad oedd unrhyw faterion i'w dirprwyo i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus.

